Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

# Adolygiadau Cymuned

## Canllaw i gynghorau



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Canllaw i brif gynghorau ar yr Adolygiad o Gymunedau**'.

**Gorffennaf 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall.
Ond efallai eich bod chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 20**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** https://cffdl.llyw.cymru

**E-bost:** enquiries@boundaries.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.
I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.


# Cynnwys

**Tudalen**

Cyflwyniad ........ 4
Am y ddogfen yma ........ 6
Mathau o Adolygiadau Cymuned ........ 9
Pwy sydd yn penderfynu pryd i gael Adolygiad Cymuned ........ 10
Beth sydd yn digwydd mewn Adolygiad Cymuned ........ 12
Darganfod beth mae pobl yn feddwl am y newidiadau sydd yn cael eu cynnig ........ 14
Ardaloedd anodd ........ 15
Cynigion drafft ........ 16
Adroddiad Cynigion Terfynol ........ 17
Geiriau Anodd ........ 19

# Cyflwyniad

Ni ydy **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**.



Ein gwaith ni ydy edrych a gwneud newidiadau i sut mae Cymru yn cael ei rhannu i'w hardaloedd gwahanol.

Mae hyn yn meddwl cymunedau hefyd.



Mae cymuned yn gallu meddwl eich stryd, pentref neu ardal fwy.

Mae'n gallu meddwl pethau gwahanol i bobl wahanol.





Ond mae ganddo ystyr arbennig yn y gyfraith hefyd.

Yn y gyfraith, cymuned ydy ardal y tu mewn i ardal **prif gyngor**.



**Prif gyngor** yw cyngor sir, cyngor dinas neu gyngor bwrdeistref sirol.





Yn y ddogfen hon, pan ddywedwn **awdurdod lleol** neu **gyngor lleol** rydym yn golygu Prif Gyngor.




Pan rydyn ni'n siarad am gymunedau yn y ddogfen yma, rydyn ni'n siarad am ei ystyr cyfreithiol.

# Am y ddogfen yma



Yn y ddogfen yma rydyn ni'n dweud wrthych chi am **Adolygiadau Cymuned**.



**Adolygiad Cymuned** ydy pan mae **prif gyngor** yn newid y **ffin** neu drefniadau etholiadol cymuned.



**Ffin** ydy'r ymyl o gwmpas ardal.

Os ydy **ffin** yn newid, mae maint a siâp ardal yn newid.



Mae **awdurdod lleol** neu **gyngor lleol** yn cynnwys llawer o gymunedau




Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i **gynghorau lleol** wirio'r cymunedau yn ei ardal.



Rhaid iddo feddwl os oes angen newid yr ardaloedd cymuned

Efallai y bydd **cyngor lleol** yn penderfynu newid ardaloedd cymunedol oherwydd:



- mae nifer y bobl sydd yn byw yn yr ardal yn newid



- mae ffyrdd, tai neu adeiladau newydd yno.



Yr unig ffordd y gall **cyngor lleol** newid ardal gymunedol yw trwy **Adolygiad Cymunedol**.

Mae **Adolygiad Cymunedol** yn ffordd dda i **gyngor lleol**:



- gwneud yn siŵr bod lleoedd yn cadw eu hunaniaeth lleol




- helpu ei gwneud yn haws i gynghorau weithio.



Weithiau efallai bod grwpiau o gymunedau eisiau dod at ei gilydd.




Mae hyn yn gallu arbed arian.



Neu efallai bydd pobl yn cael gwasanaethau cyngor gwell.

# Mathau o Adolygiadau Cymuned

Mae dau fath o **Adolygiad Cymuned**.



1. Pan fydd y **cyngor lleo**l yn adolygu ei ffiniau cymunedol.



Pan fydd y **cyngor lleol** yn adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned. Yr enw ar hyn yw **etholaeth**.




**Etholaeth** ydy ardal lle mae pobl sydd yn pleidleisio mewn etholaeth yn byw.

# Pwy sydd yn penderfynu pryd i gael Adolygiad Cymuned

Mae **Adolygiad Cymuned** yn gallu digwydd mewn 3 ffordd.



1. Os ydy'r gymuned yn gofyn am **Adolygiad Cymuned**.




2. Os yw'r **cyngor lleol** eisiau **Adolygiad Cymunedol**.



3. Os ydy Gweinidogion Cymru eisiau **Adolygiad Cymuned**.




Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i gynghorau lleol anfon adroddiad atom bob 10 mlynedd i ddweud wrthym sut maen nhw'n trefnu eu cymunedau.




Dylai'r adroddiad ddweud beth mae'r **cyngor lleol** wedi'i wneud.
Fe ddylai'r adroddiad ddweud wrthyn ni os dylai **Adolygiad Cymuned** gael ei gynnal neu beidio



Rhaid i'r adroddiad ddweud wrthyn ni beth ydy'r rhesymau dros y penderfyniad.



Mae'r adrannau nesaf yn egluro beth fydd yn digwydd os bydd y **cyngor lleol** yn penderfynu y dylid cynnal **Adolygiad Cymunedol**.

# Beth sydd yn digwydd mewn Adolygiad Cymuned




Mae'r adrannau nesaf yn egluro beth fydd yn digwydd os bydd y **cyngor lleo**l yn penderfynu y dylid cynnal **Adolygiad Cymunedol**.



1. Ysgrifennu sut a phryd y bydd yn ei wneud.
   Mae hyn yn cael ei alw yn **Cylch Gwaith**.



2. Dweud wrth bobl beth ydy'r **ffiniau** cymuned nawr.




3. Dweud wrth bobl beth sydd angen ei wneud.




Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei ysgrifennu mewn adroddiad ac mae'n cael ei rannu gyda'r cyhoedd.




Pan fydd **cyngor lleol** yn cynnal **Adolygiad Cymunedol** rhaid iddo hefyd sicrhau ei fod yn dilyn cyfreithiau sy'n gofalu:



- pobl yn y dyfodol




- siaradwyr Cymraeg




- pobl anabl.

# Darganfod beth mae pobl yn feddwl am y newidiadau sydd yn cael eu cynnig



Rhaid i'r **cyngor lleol** ddarganfod beth yw barn pobl am y newidiadau arfaethedig. Gelwir hyn yn **ymgynghoriad**.




Rhaid i'r **cyngor lleol** rannu adroddiad yr **Adolygiad Cymunedol** gyda phobl yr ardal.



Mae'r **ymgynghoriad** yma yn cymryd rhwng 6 a 12 wythnos.

Mae hyn yn rhoi digon o amser i bobl ddarllen yr wybodaeth a dweud beth maen nhw'n feddwl.



Yn ystod yr **ymgynghoriad cyntaf** yma, fe ddylai'r **prif gyngor** feddwl os ydy **ffin** pob ardal cymuned o hyd yn ddefnyddiol.



Er enghraifft, efallai bod pobl yn meddwl y dylai **ffin** cymuned newid oherwydd tai newydd.


## Ardaloedd anodd





Weithiau efallai nad ydy pobl yn cytuno â **ffiniau** newydd cymuned.

Gallwn gynghori pobl yn y **cyngor lleo**l am hyn.

# Cynigion drafft




Ar ôl yr **Ymgynghoriad Cychwynnol**, mae’r **cyngor lleol** yn ysgrifennu safbwyntiau a syniadau pobl mewn adroddiad.



Pan fydd yr adroddiad wedi'i gymeradwyo, rhaid i'r **cyngor lleol** gyhoeddi **adroddiad Cynigion Drafft**.




Mae'n bwysig bod y **cyngor lleol** yn rhannu adroddiad y **Cynigion Drafft** gyda chymaint o bobl â phosibl. I gael gwybod beth yw eu barn.




Fel arfer mae’r **ymgynghoriad Cynigion Drafft** yn cymryd rhwng 6 a 12 wythnos.

Mae hyn yn rhoi digon o amser i bobl ddweud beth maen nhw’n feddwl yn yr ail ymgynghoriad yma.



Ar ddiwedd yr **ymgynghoriad**, mae’r **cyngor lleol** yn casglu sylwadau pobl.

# Adroddiad Cynigion Terfynol




Enw adroddiad terfynol yr **Adolygiad Cymuned** ydy'r **adroddiad Cynigion Terfynol**.



Rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys unrhyw newidiadau o'r ymgynghoriad ar y **Cynigion Drafft** y mae'r **cyngor lleol** yn meddwl eu bod yn dda.




Neu rhaid iddo fe ddweud os ydy e'n meddwl na ddylai fod unrhyw newidiadau i'r **ffiniau** cymuned neu drefniadau etholiadol.



Rhaid i'r **cyngor lleol**

- anfon yr adroddiad aton ni
- cyhoeddi'r adroddiad
- rhannu'r adroddiad gyda'r bobl yn ei chymunedau.




Os ydy'r adolygiad ar gyfer **ffiniau** cymuned, fe fydd y Comisiwn yn gwneud y Gorchymyn cyfreithiol.

Os yw'r adolygiad ar gyfer trefniadau etholiadol, y **cyngor lleol** fydd yn gwneud y Gorchymyn cyfreithiol.

# Geiriau Anodd

## Adolygiad Cymuned

Adolygiad Cymuned ydy pan mae prif gyngor yn newid ffin cymuned.

## Etholaeth

Etholaeth ydy ardal lle mae pobl sydd yn pleidleisio mewn etholiad yn byw.

## Ffin

Ffin ydy’r ymyl o gwmpas ardal, Os ydy ffin yn newid, mae maint a siâp ardal yn newid.

## Prif gyngor

Prif gyngor yw cyngor sir, cyngor dinas neu gyngor bwrdeistref sirol.